OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 140

# Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015

## RHAN 5

## Swyddogaethau disgyblu

**Achosion Pwyllgorau Ymchwilio**

**28.**—(1) Pan fydd Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu cynnal ymchwiliad mewn perthynas â pherson cofrestredig, ar adeg yn ystod yr ymchwiliad y mae'n ei ystyried yn briodol, mae'n rhaid iddo—

(a) hysbysu'r person cofrestredig o natur yr honiad neu'r achos yn ei erbyn, a'i hawliau o dan reoliad 30;

(b) rhoi'r cyfle i'r person cofrestredig gyflwyno tystiolaeth a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig; ac

(c) ystyried tystiolaeth a sylwadau o'r fath ac unrhyw dystiolaeth a deunydd arall sydd ar gael iddo.

(2) Caiff Pwyllgor Ymchwilio benderfynu peidio â pharhau ag ymchwiliad ar unrhyw adeg cyn i'r achos gael ei atgyfeirio i Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer benderfynu arno.

(3) Ar ôl cwblhau ei ymchwiliad rhaid i'r Pwyllgor Ymchwilio gymryd un o'r camau a ganlyn—

(a) atgyfeirio'r achos i Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer benderfynu arno; neu

(b) peidio â pharhau â'r achos.

(4) Pan fo Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu peidio â pharhau ag ymchwiliad neu achos mae'n rhaid iddo hysbysu'r person cofrestredig dan sylw a'i gyflogwr—

(a) ei fod yn peidio â pharhau â'r achos; a

(b) nad oes gan y person cofrestredig dan sylw achos i'w ateb.

(5) Pan fo Pwyllgor Ymchwilio yn penderfynu nad oes gan berson cofrestredig achos i'w ateb, rhaid iddo gyhoeddi datganiad i'r perwyl hwnnw ar gais y person dan sylw.

(6) Caiff y Cyngor wneud darpariaethau eraill ynghylch y weithdrefn i'w dilyn gan Bwyllgor Ymchwilio mewn cysylltiad ag ymchwiliadau'r Pwyllgor Ymchwilio ac achosion eraill fel y gwêl yn addas, a chaiff adolygu unrhyw reolau gweithredu a wneir o dan y paragraff hwn o bryd i'w gilydd.